Annwyl Gwsmer

## Ymgysylltu â'n cwsmeriaid – Rhannu eich barn

### Newidiadau i Wasanaeth Symudol Crymlyn

Rydym wrth ein bodd yn rhoi gwybod i chi y byddwn yn adfer gwasanaethau Swyddfa'r Post i gymunedau Maesycwmmer, Penllwyn, Pontllan-fraith ac Elliotstown o'r wythnos yn dechrau Ddydd Llun 31 Ionawr 2022. Roedd y gwasanaeth Allgymorth blaenorol yn darparu ar gyfer y cymunedau hynny tan yn ddiweddar pan ymddeolodd y postfeistr o Swyddfa Bost Pen-maen. Felly, caiff ei adfer gan bostfeistr newydd o Swyddfa Bost Crymlyn gyda gwasanaeth Symudol.

Mae Gwasanaeth Symudol, sef Swyddfa Bost deithiol mewn cerbyd pwrpasol sy'n dod â gwasanaethau a nwyddau manwerth Swyddfa'r Post i gymunedau heb orfod dibynnu ar adeilad, yn ffordd dda o gynnal gwasanaeth i gymunedau bach.

Er mwyn gallu cynnal lleoliadau'r Gwasanaeth Symudol newydd, bydd rhai newidiadau i'r gwasanaethau presennol, sydd hefyd yn cael eu darparu gan Swyddfa Bost Crymlyn, yng Ngwaelod-y-garth, Cwmaman, Bedlinog, Gelli-gaer, Trinant, Markham, Cwm, Parc Highlight, Heol Colcot, Merthyr Dyfan, Pant, Six Bells a Llanhiledd o'r wythnos yn dechrau Ddydd Llun 31 Ionawr 2022.

Mae manylion pellach am y newidiadau i'r gwasanaethau hyn ar ddiwedd y llythyr hwn.

Byddwn yn gosod posteri yn lleol i rannu'r newyddion da â'n cwsmeriaid. Byddai o gymorth pe gallech rannu'r wybodaeth hon drwy eich sianeli cyfryngau cymdeithasol a hefyd ag unrhyw grwpiau neu sefydliadau lleol yn y gymuned – er enghraifft ar hysbysfyrddau, ymhlith elusennau lleol ac mewn meddygfeydd – er mwyn helpu ein cwsmeriaid a'ch etholwyr chi i ddeall yr hyn sy'n digwydd i'r Swyddfa Bost yn y gymuned leol. Os hoffech gael cyflenwad o bosteri, rhowch wybod i ni.

**Hoffem glywed gennych**

Am ein bod yn awyddus i adfer gwasanaethau i gymunedau Maesycwmer, Penllwyn, Pontllan-fraith ac Elliotstown cyn gynted â phosibl, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen â'n cynlluniau. Mae adfer y gwasanaeth fel gwasanaeth allgymorth Symudol yn y lleoliadau hynny yn benderfyniad masnachol i Swyddfa'r Post Cyf. ac felly nid ydym yn chwilio am ymateb i'r agwedd hon ar y newid. Fodd bynnag, byddem yn croesawu awgrymiadau am agweddau penodol ar y newid a allai fod o fudd i gwsmeriaid, yn enwedig ynglŷn â'r canlynol:

- Pa mor addas, yn eich barn chi, yw'r lleoliadau newydd a pha mor hawdd yw eu cyrraedd?
- A oes gennych unrhyw sylwadau am y dyddiau a'r oriau agor arfaethedig?

Byddwn yn derbyn sylwadau tan Ddydd Mercher 23 Chwefror 2022. Ni fyddwn yn rhoi ymateb yn unigol i chi, ond bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried wrth i ni wneud ein penderfyniadau terfynol.

**Post Office Limited is registered in England and Wales. Registered No. 2154540.**
**Registered Office: Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, London EC2Y 9AQ.**
Post Office and the Post Office logo are registered trademarks of Post Office Limited.
**Cofrestrwyd Swyddfa'r Post Cyf yng Nghymru a Lloegr. Rhif Cofrestredig 2154540.**
**Swyddfa Gofrestredig yn Finsbury Dials, 20 Finsbury Street, Llundain EC2Y 9AQ.**
Mae Swyddfa'r Post a logo Swyddfa'r Post yn nodau masnach cofrestredig I Swyddfa'r Post Cyfyngedig.

Mae'r manylion am y gwasanaethau newydd ar gael ar ddiwedd y llythyr hwn. I gael rhagor o wybodaeth neu i rannu'ch sylwadau, byddwch cystal â mynd i'n Canolfan Ymgynghori trwy postofficeviews.co.uk. Yna defnyddiwch y ffwythiant chwilio i gael hyd i'r ymgysylltiad a'r gwasanaeth hwn, naill ai drwy enw'r gwasanaeth, y cod post neu'r cod cangen unigryw **597458**

Unwaith y cwblheir y cynlluniau, byddwn yn gosod posteri yn lleol a rhoddir gwybodaeth ar ein Canolfan Ymgynghori i amlinellu'r prif sylwadau a dderbyniwyd a'n hymateb iddynt. Os bydd rhaid newid y dyddiad agor am resymau annisgwyl, bydd posteri'n cael eu gosod yn lleol er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid.

Mae ein hymgysylltu yn unol â'n Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned.
Mae detholiad sy'n ymwneud ag Ymgysylltu ar ddiwedd y llythyr hwn.

Mawr obeithiwn y byddwch yn cefnogi'r Gwasanaeth Symudol newydd ym Maesycwmer, Penllwyn, Pontllan-fraith ac Elliotstown.

Yr eiddoch yn gywir

*Katimay John*

**Katimay John**
**Arweinydd Darpariaeth Rhwydwaith**

**Sut i gysylltu â ni:**

**I rannu'ch barn:**
**Canolfan Ymgynghori**
**(postofficeviews.co.uk)**
comments@postoffice.co.uk
Ffoniwch: 03452 66 01 15
Ffôn Testun: 03457 22 33 55
FREEPOST Your Comments – D.S. Dyma'r cyfeiriad post llawn. Mae eitemau a anfonir drwy Freepost yn cymryd 2 ddiwrnod gwaith i gyrraedd pen y daith, ac felly dylech ganiatáu digon o amser.

**Eisiau rhoi eich barn yn y fan a'r lle? Sganiwch yma.**
Os nad oes gennych sganiwr cod QR ar eich ffôn, gallwch gael un yn eich storfa apiau.

Mae eitemau a anfonir trwy Radbost yn cymryd dau ddiwrnod gwaith i gyrraedd, ac felly dylai ymatebion a ddanfonir trwy Radbost gael eu postio mewn digon amser i gyrraedd cyn diwedd y cyfnod ymgysylltu. Nid yw diwrnodau gwaith yn cynnwys Dydd Sadwrn na Dydd Sul. Ni fydd ymatebion a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried.

**Manylion am y Gwasanaeth Symudol newydd ym Maesycwmer:**

**Gwasanaeth Symudol Maesycwmer**
Maes Parcio Neuadd y Pensiynwyr
The Crescent
Maesycwmer
Yr Hengoed
CF82 7QF

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 14:30 – 15:30 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis eang o wasanaethau ar gael.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Parcio**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

---

**Manylion am y Gwasanaeth Symudol newydd: Penllwyn:**

**Gwasanaeth Symudol Penllwyn**
Y tu allan i Siop Premier Penllwyn
25-27 Fleur De Lys Avenue
Penllwyn
Coed-duon
NP12 2EN

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 13:50 – 14:50 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis eang o wasanaethau ar gael.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Parcio**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

---

**Manylion am y Gwasanaethau Symudol newydd: Pontllan-fraith:**

**Gwasanaeth Symudol Pontllan-fraith**
Maes Parcio Elim, Capel y Bedyddwyr
Heol Trecelyn
Pontllan-fraith
Coed-duon
NP12 2LB

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 14:55 – 15:55 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Parcio**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

---

**Manylion am y Gwasanaeth Symudol newydd: Elliotstown:**

**Gwasanaeth Symudol Elliotstown**
Maes Parcio Canolfan y Rhosyn Gwyn
Stryd y Groes
Elliotstown
Tredegar Newydd
NP24 6EF

**Oriau agor**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 09:20 – 12:20 |

**Gwasanaethau**
Bydd dewis o wasanaethau ar gael.

**Mynediad**
Mae yna ris i mewn i'r Cerbyd Symudol, ond mae tinbren electronig ar gael i'w gwneud yn haws i ddefnyddwyr cadair olwyn neu bobl ag anableddau i fynd i mewn.

**Parcio**
Mae parcio ar gael yn agos i'r lle bydd y Cerbyd Symudol wedi ei barcio.

---

**Manylion y newidiadau i wasanaethau symudol presennol Crymlyn:**

**Gwaelod Y Garth Inn car park, Main Road, Gwaelod Y Garth, Cardiff, CF15 9HH**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 12:45 – 13:45 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Llun | 13:00 – 14:00 |

**Gwasanaeth Symudol Cwmaman, Maes Parcio Cartref Gofal Cwmaman, Stryd Morris, Cwmaman, Aberdâr, CF44 6HW**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:40 – 10:40 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 09:30 – 10:30 |

**Gwasanaeth Symudol Bedlinog, Maes Parcio Gibbons Coach Holidays, 17 Y Stryd Fawr Uchaf, Bedlinog, Treharris, CF46 6RY**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:30 – 13:30 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 11:15 – 12:15 |

**Gwasanaeth Symudol Gelli-gaer, Maes Parcio'r Ganolfan y tu ôl i'r siopau, Heol Catwg, Gelli-gaer, Yr Hengoed, CF82 8FA**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 11:15 – 12:15 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 12:30 – 13:30 |

**Gwasanaeth Symudol Trinant, Cilfan y tu allan i Ganolfan Gymuned Trinant, Teras Trinant, Pen-twyn, Casnewydd, NP11 3JH**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 09:10 – 10:10 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 09:00 – 10:00 |

**Gwasanaeth Symudol Markham, Maes Parcio Parc Markham, Coed-Duon, Casnewydd, NP12 0RX**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 10:30 – 11:30 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 12:25 – 13:25 |

**Gwasanaeth Symudol Cwm, Y tu allan i Lyfrgell Cwm, Stryd Canning, Cwm, Glyn Ebwy, Casnewydd, NP23 7RW**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 12:25 – 15:25 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 13:50 – 16:50 |
| Dydd Iau | 16:10 – 16:50 |

**Gwasanaeth Symudol Parc Highlight, Maes Parcio Meddygfa Parc Highlight, Rhodfa Lakin, Y Barri, CF62 8GP**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 09:50 – 10:50 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 09:20 – 10:20 |

**Gwasanaeth Symudol Heol Colcot, Maes Parcio Cherry Orchard , Heol Y Barri, Y Barri, CF62 8EH**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 11:00 – 12:00 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 10:25 – 11:15 |

**Gwasanaeth Symudol Merthyr Dyfan, Maes Parcio Clwb Rygbi Y Barri, Heol Merthyr Dyfan, Y Barri, CF62 9TH**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 12:10 – 13:10 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Iau | 11:20 – 12:20 |

**Gwasanaeth Symudol Pant, Y maes parcio nesaf at yr ysgol, Trecelyn, Casnewydd, NP11 5BX**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 12:50 – 13:50 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mawrth | 15:40 – 16:40 |

**Gwasanaeth Symudol Six Bells, Y tu allan i Dŷ Ebwy Fach, Heol y Capel, Six Bells, Abertyleri, NP13 2ND**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 14:10 – 16:10 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 14:15 – 16:15 |

**Gwasanaeth Symudol Llanhiledd, Cilfan wrth ymyl Sefydliad y Glowyr Llanhiledd, NP13 2JT**

**Oriau agor presennol**

| | |
|---|---|
| Dydd Gwener | 09:10 – 12:10 |

**Oriau agor newydd**

| | |
|---|---|
| Dydd Mercher | 10:10 – 13:10 |

**I gael yr wybodaeth hon mewn fformat gwahanol, er enghraifft, print bras, sain neu braille, ffoniwch 03452 66 01 15 neu 03457 22 33 55 (ffôn testun).**

**Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post (detholiad)**

*Mae fersiwn llawn o'r ddogfen hon ar gael ar ein Canolfan Ymgynghori - postofficeviews.co.uk*

Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilynir yr egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.

*Byddwn yn **Ymgysylltu** – pan fyddwn yn ceisio adborth am benderfyniad a wnaed ynghylch:*

- Ailagor cangen a gaewyd dros dro mewn lleoliad newydd (os yw cangen wedi bod ar gau am fwy na thri mis)
- Masnachfreintio cangen â Rheolaeth-Uniongyrchol yn ei safle cyfredol.

Er y gwnaed y penderfyniad i fwrw ymlaen, byddwn yn croesawu awgrymiadau ynghylch agweddau penodol ar y newid, megis trefniadau mynediad a'r dyluniad mewnol. Byddwn yn rhoi pedair wythnos o rybudd neu, os yw amgylchiadau esgusodol yn atal hyn, byddwn yn rhoi cymaint o rybudd â phosibl.

Yn ystod y cyfnod hwn byddwn yn gosod poster yn y gangen ac yn darparu gwybodaeth ar-lein. Byddwn yn cysylltu â chynrychiolwyr etholedig lleol[2], y Cyrff Eirioli Defnyddwyr ac elusennau dewisol[3], i roi gwybodaeth glir am unrhyw newidiadau i wasanaethau neu drefniadau ynghylch mynediad i'r gangen. Byddwn yn gofyn i gynrychiolwyr etholedig lleol rannu gwybodaeth trwy gyfryngau cymunedol eraill (megis hysbysfyrddau, elusennau lleol, cylchgronau, meddygfeydd, etc.). Byddwn yn cyhoeddi canlyniad yr ymgysylltiad ar-lein ac yn y gangen, gan roi crynodeb o'r materion allweddol a godwyd, ynghyd ag ymateb i bob un ac unrhyw newidiadau a wnaed i'n cynlluniau gwreiddiol.

***Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon; cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.***

*Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilynwyd yr Egwyddorion hyn:*

Cysylltwch â ni fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hymateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Cyngor ar Bopeth yr Alban neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hymateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i ganfod a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymell unrhyw weithredu ynghylch y gŵyn.

**postofficeviews. co.uk.**
**comments@postoffice.co.uk**
**FREEPOST Your Comments**
**Ffoniwch: 03452 66 01 15**
**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

[2] Mae cynrychiolwyr etholedig lleol yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf.

[3] Yr elusennau dethol yw Cyngor ar Bopeth, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Anogir y sawl y cyfeirir atynt yn 2 a 3 uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.